# Cynnwys


Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 5
6 - Adolygiad o'r drefn ar gyfer ceisiadau am oddefebau ac Atodiad 1 10
Atodiad 2 14
Atodiad 3 16
7 - Hunan Asesiad 19
8 - Rhaglen Waith 24
9 - Honiadau yn erbyn aelodau 28
Atodiad 1 30

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**11.00am, DYDD LLUN, 7 EBRILL, 2014**

**11.00am, MONDAY, 7 APRIL, 2014**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gwyrfai,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 28/03/14*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Charles Wyn Jones
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

**Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) / Independent Members (with a vote) (5)**

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
Dr Einir Young

**Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) / Community Committee Member (with a vote) (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

**Eraill a wahoddir i'r cyfarfod / Others invited to the meeting**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd /
Chairman & Vice-chair of the Democratic Services Committee (eitem / item 5)

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2014 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

**5. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Croesawu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i’r cyfarfod i gynnal trosolwg o swyddogaethau’r ddau bwyllgor gan ystyried sut y gallent gynorthwyo’r naill a’r llall, materion penodol yn ymwneud â safonau a godir yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a’r gefnogaeth a’r hyfforddiant sydd ar gael i gynghorwyr.

**6. ADOLYGIAD O’R DREFN AR GYFER CEISIADAU AM ODDEFEBAU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

**7. HUNAN ASESIAD**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

**8. RHAGLEN WAITH**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU, 27.01.14

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Charles Wyn Jones, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones, Mr Sam W.Soysa a'r Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Iwan Evans (Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar wahoddiad y Cadeirydd:** Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd).

Croesawyd y Cynghorydd Lesley Day i'r cyfarfod.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Eglurodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ei fod wedi derbyn manylion dau achos yn eitem 9 ar y rhaglen – Honiadau yn erbyn Aelodau (achosion 201300346 a 3982/201301430) gan gynghorydd arall ac o'r herwydd na fyddai'n cymryd rhan mewn trafodaeth ar yr achosion, er nad oedd ganddo fuddiant personol yn yr eitem.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2013 fel rhai cywir.

**3. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2012-2013**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2012-2013.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**4. COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH**

Cyflwynwyd – adroddiad blynyddol y Swyddog Monitro ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch i Aelodau. Gofynnwyd i'r aelodau gynnig unrhyw sylwadau ar yr adroddiad gan hefyd gynnig arweiniad pellach ynglŷn â chyhoeddi'r gofrestr ar wefan y Cyngor.

Nododd y Swyddog Monitro, er bod ychydig mwy o gynghorau cymuned wedi ymateb i'r holiadur ers iddi baratoi'r adroddiad, mai prin hanner yn unig oedd wedi ateb. O'r rheini, 'roedd 10 yn cadw cofrestr ac nid oedd yr un datganiad wedi'i wneud ers Mai 2012.

Trafodwyd rhesymau posib' dros y nifer isel o ddatganiadau yn y Cyngor Sir a'r cynghorau cymuned, e.e. dim cynigion o roddion / lletygarwch yn cael eu gwneud, anwybodaeth ynglŷn â'r angen i gofrestru neu dybiaeth nad yw rhodd yn ddigon pwysig i fod angen ei gofrestru. Pwysleisiwyd y dylai cynghorwyr sir fod yn ymwybodol o'r angen i gofrestru gan fod y Protocol Rhoddion a Lletygarwch wedi bod gerbron y Cyngor llawn ar 2 Mai y llynedd.

Nodwyd y byddai'n ddiddorol gweld sut mae'r sefyllfa'n cymharu gyda chynghorau sir eraill.

Trafodwyd dulliau o godi ymwybyddiaeth:-

- clercod cynghorau cymuned ynglŷn â'r angen i gadw cofrestr rhoddion a lletygarwch;
- cynghorwyr sir sydd mewn swyddi dylanwadol, e.e. aelodau Cabinet a chadeiryddion pwyllgorau penodol, ynglŷn â'r drefn a'r angen iddynt wneud datganiadau. Nodwyd hefyd bod aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn cryn dipyn o letygarwch.

Awgrymwyd gofyn i'r cynghorau cymuned adrodd ynglŷn â'u cofrestrau / datganiadau i'r Swyddog Monitro yn flynyddol.

Trafodwyd priodoldeb cyhoeddi cofrestr Gwynedd ar wefan y Cyngor. Awgrymwyd peidio gwneud hynny ar hyn o bryd, gan baratoi yn y cyfamser, fel bod y data mor dryloyw â phosib' ar gyfer ei gyhoeddi pan fydd raid.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gwneud gwaith cymharu gyda siroedd eraill a chyflwyno'r wybodaeth fel rhan o'r adroddiad blynyddol nesaf yn Ionawr 2015.**

**(c) Anfon holiaduron i'r holl gynghorau cymuned yn flynyddol o hyn allan.**

**(ch) Gohirio cyhoeddi'r gofrestr ar wefan y Cyngor am y tro a pharatoi ar gyfer pan fydd raid gwneud hynny gan ailystyried y mater ymhen blwyddyn.**

## 5. Y GOFRESTR FUDDIANNAU

Cyflwynwyd – adroddiad blynyddol y Swyddog Monitro ar y Gofrestr Fuddiannau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn gan aelodau. Gofynnwyd i'r aelodau gynnig unrhyw sylwadau ar gamau i'w cymryd mewn perthynas â chofrestru buddiannau gan hefyd gynnig sylwadau ar y ffurf orau o gyhoeddi'r gofrestr ar y we.

Nododd y Swyddog Monitro fod 34 o gynghorau cymuned wedi ymateb i'r holiadur erbyn hyn; bod 5 ohonynt yn cofnodi buddiannau ar ddechrau tymor y Cyngor a 29 yn cofnodi buddiannau yn ystod cyfarfodydd.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach fod cryn waith i'w wneud i gael y neges drosodd i'r cynghorau cymuned ynglŷn â'r angen i gyhoeddi datganiadau ar y we. Eglurodd fod pob cyngor cymuned wedi cael cynnig grant o £500 gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwefan, yn rhannol ar gyfer cyhoeddi datganiadau, ond 'roedd nifer ohonynt wedi gwrthod y grant gan ddweud nad oeddent yn dymuno datblygu gwefan, heb sylweddoli bod hyn yn mynd i fod yn orfodaeth arnynt.

Nodwyd, pe bai ffurflenni buddiannau'r aelodau yn cael eu sganio ar y we, byddai'n rhaid sicrhau eu bod yn glir ac yn ddarllenadwy.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**
**(b) O ran y camau i'w cymryd mewn perthynas â chofrestru buddiannau, dylid datgan pryder ynglŷn â'r pwysau gwaith cynyddol ar glercod a'r ffaith nad yw cynghorau cymuned yn teimlo bod ganddynt adnoddau digonol i gynnal gwefannau.**

## 6. SAFON GWYNEDD A'R DREFN DDATRYS LEOL

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn manylu ar weithrediad Safon Gwynedd ac yn cynnig diwygiadau i'r Drefn Ddatrys Leol yng ngoleuni'r profiad o ymdrin â 4 cŵyn o dan y drefn honno yn ystod y cyfnod Mai 2012 i Ragfyr 2013.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**
**(b) Cynnig y diwygiadau canlynol i'r Drefn Ddatrys Leol:-**
**(i) Na ddylai'r Swyddog Monitro gamu o'r neilltu yn ystod Cam 1 o'r broses a gadael i swyddogion eraill roi cyngor, oherwydd ar y cam yma mae'r gwaith manwl yn digwydd i sefydlu'r ffeithiau ac yma hefyd mae'r cyfle gorau i ddatrys cŵyn drwy drafod a negodi gyda'r aelodau a rhwng aelodau. Pe byddai yna achos y bu'r Swyddog Monitro yn ymdrin ag ef yn cyrraedd cam 3 o'r broses, byddai'n rhaid i'r Dirprwy Swyddog Monitro, neu gynrychiolydd arall, gynghori'r Pwyllgor Safonau.**
**(ii) Y dylai'r drefn gyfeirio at yr angen i gynnal ymchwiliad i sefydlu a oes sail i gŵyn cyn symud ymlaen i'r cam nesaf.**
**(iii) Y dylai'r drefn fod yn fwy hyblyg o ran pwy ddylai fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cymodi.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Cyflwynwyd hefyd gopi o benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru yn achos apêl y Cynghorydd A.M.Jones yn cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Safonau bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a'r penderfyniad i'w wahardd rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd am dri mis.

Amlinellodd y Rheolwr Cydraddoldeb ac Iaith y drefn statudol oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor gyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad ac i'r Swyddog Monitro gyhoeddi'r adroddiad hwnnw ar wefan y Cyngor. Nododd hefyd fod cyfnod o waharddiad y Cynghorydd Jones wedi dod i rym ar 21 Ionawr.

Ar nodyn cyffredinol, nodwyd y byddai'n fuddiol, o safbwynt tracio, petai'r adroddiadau o hyn allan yn nodi dyddiad derbyn pob cŵyn.

Gan gyfeirio at ran 2.7 o'r adroddiad, mynegwyd siomedigaeth bod enw'r person wedi'i ddatgelu yn y Wasg a gofynnwyd am gofnodi'r ffaith nad oedd yr enw wedi'i ryddhau gan y Swyddog Monitro na'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Bod y Rheolwr Cydraddoldeb ac Iaith yn paratoi adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad a bod y Swyddog Monitro yn ei osod ar wefan y Cyngor.**
**(b) Cwyno wrth y Panel Dyfarnu bod eu llythyr wedi ei dderbyn yn uniaith Saesneg, gan ddwyn y mater i sylw'r Comisiynydd Iaith, os oes angen.**

**(c) Cyfarwyddo'r Cynghorydd Jones i baratoi llythyr o ymddiheuriad, a'i anfon at Gadeirydd y pwyllgor hwn i'w gymeradwyo, cyn ei anfon at yr achwynydd. Dylid hefyd egluro wrth y Cynghorydd Jones fod y panel wedi nodi bod ei lythyr blaenorol o ymddiheuriad yn dilyn gwrandawiad y Pwyllgor Safonau ym Medi 2012 yn annigonol.**
**(ch) Cyfarwyddo'r Cynghorydd Jones i dderbyn hyfforddiant ar y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol i Gynghorwyr.**
**(d) Y dylai'r adroddiadau o hyn allan nodi dyddiad derbyn pob cŵyn.**

**8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd – cofnodion cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2013.

Mynegwyd anniddigrwydd bod y cofnodion ar gael yn Saesneg yn unig. Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith fod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yng Nghyngor Wrecsam, ac er mai Cyngor Conwy oedd yn parhau i weinyddu'r Fforwm, cyfrifoldeb Wrecsam, fel y cyngor oedd yn cynnal y digwyddiad, oedd darparu'r cofnodion. Ychwanegodd ei fod wedi gwneud ymholiadau a bod y swyddog yng Nghonwy wedi gofyn i'r swyddogion yn Wrecsam am gyfieithiad.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Bod David Clay i fynd i gyfarfod nesaf y Fforwm, os nad yw'r Is-gadeirydd ar gael.**
**(b) Tynnu sylw Cyngor Wrecsam at y ffaith bod eu methiant i ddarparu fersiwn Gymraeg o'r cofnodion yn esgeulustod ar eu rhan a phwysleisio nad yw'r pwyllgor hwn yn dymuno derbyn cofnodion uniaith Saesneg eto.**

**9. PROTOCOL CYSWLLT AELOD/SWYDDOG**

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn argymell i'r pwyllgor gymeradwyo'r Protocol Safonol sydd yn y Cyfansoddiad Modylaidd newydd i'r Cyngor i'w fabwysiadu, ond gyda rhai diwygiadau er mwyn cynnwys ynddo'r materion rheini ym Mhrotocol presennol y Cyngor sydd o bwys mwyaf i'r pwyllgor.

Gan gyfeirio at ran 8 o'r Protocol – Cynnwys Cynghorwyr Wardiau, nododd aelod fod Cyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi penderfynu y dylai ef a'r Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu ystyried achosion o ddiffyg rhannu gwybodaeth gyda chynghorwyr lleol ac awgrymodd y dylid gohirio ymchwilio i gwynion o'r fath hyd oni fo'r Protocol newydd wedi'i fabwysiadu. Cydsyniodd y Swyddog Monitro i hyn.

**PENDERFYNWYD argymell y ffurf newydd o Brotocol Cyswllt Aelod/Swyddog (Atodiad 1 i'r adroddiad) i'r Cyngor ei fabwysiadu yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai er mwyn cael gwell cysondeb gyda chynghorau eraill yng Nghymru ac er sicrhau gwell eglurder.**

**10. PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL I GYNGHORWYR**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Comisiynu Corfforaethol yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo protocol ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr.

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei bod o'r farn y dylid cryfhau'r rhan o'r protocol sy'n ymdrin ag anogaeth ac awgrymodd gynnwys y geiriad "*Dim annog ymddygiad sy'n groes i'r Protocol hwn gan eraill*" yn lle'r pwynt bwled olaf ym mharagraff 6.

I'r gwrthwyneb, awgrymwyd gan eraill y byddai cryfhau'r cymal yn ormodol yn rhwystr i drafodaeth agored. Nodwyd hefyd bod ymrafael geiriol yn rhan naturiol o wleidyddiaeth, ond 'roedd yna linell na ddylid ei chroesi, a'r her oedd diffinio'r llinell honno.

Awgrymwyd arddel geiriad i'r perwyl na ddylai aelodau ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i annog unrhyw fath o ymgyrch bersonol faleisus yn erbyn pobl eraill.

Diolchwyd i'r Grŵp Tasg Protocol Cyfryngau Cymdeithasol, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Uwch Reolwr Comisiynu Corfforaethol am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Argymell i'r Cyngor ar 6 Mawrth gymeradwyo'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol i Gynghorwyr yn amodol ar newid geiriad y rhan o'r protocol sy'n ymdrin ag anogaeth i bwysleisio na ddylid cynnal ymgyrch bersonol maleisus yn erbyn person.**

**(b) Y dylid darparu sesiynau hyfforddiant ar y Protocol i aelodau yn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd gan wahodd yr aelodau cyfetholedig i fod yn bresennol hefyd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.10pm.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **7 Ebrill 2014** |
| **Teitl :** | **Adolygiad o'r drefn ar gyfer ceisiadau am oddefebau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Penderfynu o os dylid diwygio'r drefn** |

## 1. Cefndir

1.1 Pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod Ymddygiad, mae'n rhaid iddo/i ddatgelu'r buddiant hwnnw a gadael y cyfarfod. Ni ddylai wneud unrhyw gynrychioliadau llafar nac ysgrifenedig na cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw 'chwaith. Yr eithriad i hyn yw pan fydd yr aelod wedi derbyn goddefeb gan y Pwyllgor Safonau.

1.2 Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol.

1.3 Mater i'r pwyllgor yw penderfynu os dylid caniatáu cais ai peidio yn yr amgylchiadau, ac mae'r Ombwdsmon yn cynnig y canllaw canlynol ar yr hyn y dylai ystyried wrth ddod i'w benderfyniad:

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

## 2. Ceisiadau i'r Pwyllgor hwn

2.1 Yn **Atodiad 1** ceir dadansoddiad o'r ceisiadau sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ers mis Mai 2008.

## 3. Trefniadau Presennol y Pwyllgor

3.1 Nid oes trefn statudol wedi ei gosod ar gyfer ymdrin â cheisiadau, ac mae pob Pwyllgor Safonau yn gweithredu ei drefniadau ei hun. Mae'r Pwyllgor hwn yn gweithredu ar sail adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro sy'n cynnwys copi o'r ffurflen gais ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd wedi ei dderbyn gan swyddogion ar ôl cysylltu gyda'r ymgeisydd.

**4. Caniatáu ymgeisydd i fynychu**

4.2 Yn ei gyfarfod ar 28.01.13 ystyriodd y Pwyllgor yr egwyddor o ganiatáu i gynghorwyr ymddangos gerbron y Pwyllgor i gyflwyno ceisiadau yn bersonol. Awgrymwyd y byddai cael cyfle i holi ymgeiswyr yn fodd i'r Pwyllgor gael mwy o wybodaeth ynglŷn â chais. Teimlai'r pwyllgor serch hynny na fyddai'n ddefnydd gorau o amser unrhyw un, ac y dylid gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth lawnach ymlaen llaw. Penderfynwyd gofyn i swyddogion ystyried a gynhwyswyd gwybodaeth ddigonol gyda'r cais cyn ei osod ar y rhaglen.

4.3 Ar gyfer yr adolygiad hwn, edrychwyd ar arferion pwyllgorau safonau eraill yng Nghymru. Gwelwyd bod nifer ohonynt yn caniatáu i ymgeiswyr i fynychu'r cyfarfod i gyflwyno eu cais. Gwelwyd hefyd enghraifft hefyd o glerc cyngor cymuned yn mynychu i gyflwyno gwybodaeth ac ateb cwestiynau ynglŷn â chais a wnaed gan nifer o aelodau o'i gyngor.

4.4 Cysylltwyd â chyngor Ceredigion sydd wedi bod yn gweithredu trefn o'r fath ers 2006. O dan eu trefniadau hwy mae'n orfodol i'r aelod lenwi ffurflen ym mhob achos, h.y. os yw'n dymuno mynychu ai peidio. Nid yw pob ymgeisydd yn mynychu, ond pan fydd hynny'n digwydd teimla swyddogion ei fod o fudd i'r pwyllgor drwy ganiatáu i'r aelodau ofyn cwestiynau yn uniongyrchol i'r ymgeisydd i gael gwell dealltwriaeth o'r cefndir ac o'r rheswm dros wneud y cais. Oherwydd y byddai gan unrhyw aelod sy'n ymddangos gerbron y pwyllgor fuddiant sy'n rhagfarnu yn y mater, mae Pwyllgor Safonau Ceredigion wedi caniatáu goddefeb gyffredinol i bob aelod i ymddangos i bwrpas cyflwyno cais am oddefeb

4.5 Ystyrir y byddai presenoldeb ymgeisydd yn rhoi'r manteision canlynol:

- Galluogi'r pwyllgor i wneud penderfyniad ar sail yr holl ffeithiau perthnasol, h.y. natur y buddiant, y mater fydd dan ystyriaeth a'r rheswm dros wneud y cais
- Tryloywder ac atebolrwydd yn y modd y gwneir y penderfyniad
- Sicrhau bod yr ymgeisydd wedi cael cyfle i gyflwyno ei (h)achos yn llawn

4.6 Gwelir mai anfanteision y drefn fyddai:

- Amser a chostau teithio i'r ymgeisydd
- Na fyddai amser a lleoliad cyfarfodydd yn gyfleus i bawb
- Cyfarfodydd y pwyllgor yn cymryd yn hwy
- Perygl y gallai'r drafodaeth grwydro i drafod y mater sy'n destun buddiant yn hytrach nag a ddylid caniatau neu beidio

4.7 Petai'r pwyllgor hwn yn penderfynu caniatáu i ymgeiswyr fynychu, gellid ystyried y pwyntiau canlynol fel sail i'r drefn:

- Hawl i ymgeisydd fod yn bresennol (ond dim rheidrwydd)
- Ymgeisydd i gwblhau'r ffurflen ym mhob achos

- Ymgeisydd i gadarnhau ymlaen llaw os yw am fynychu ai peidio
- Cadeirydd i wahodd yr ymgeisydd i gyflwyno ei gais/chais
- Posib gosod terfyn amser (e.e. 5 munud).
- Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd ynglŷn â'r cais
- Dim caniatâd i'r ymgeisydd ofyn unrhyw gwestiwn i'r Pwyllgor
- Ymgeisydd i adael yr ystafell
- Pwyllgor i drafod ac i benderfynu yn absenoldeb yr ymgeisydd
- Hysbysu ymgeisydd o'r penderfyniad drwy ei (g)alw yn ôl i'r ystafell, neu yn ysgrifenedig gan swyddogion

**5. Ffurflen**

5.1 Atodir copi o'r ffurflen bresennol yn **Atodiad 2.** Gofynnir am farn y Pwyllgor ar y ffurflen ddrafft newydd - **Atodiad 3**.

**6. Ceisiadau'n ymwneud ag ysgolion**

6.1 Mae'r Pwyllgor yn y gorffennol wedi gosod canllawiau i'w hystyried wrth iddo benderfynu ar geisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Y canllaw presennol yw:

*"Y byddai 'tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau*"

6.2 Mae'r Pwyllgor felly wedi gwrthod caniatáu goddefebau llawn i aelodau sydd â chysylltiad sy'n dod o fewn y categori hwn.  Mae wedi, serch hynny, caniatáu iddynt gymryd rhan yn nhrafodaethau Paneli Adolygu Dalgylch ac i gymryd rhan lawn mewn trafodaethau yn y Cyngor a'i bwyllgorau ar faterion yn gysylltiedig â threfniadaeth ysgolion cynradd y sir, oni bai fod y trafodaethau hynny yn gysylltiedig yn uniongyrchol a'r ysgol dan sylw.

6.3 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried os yw'r canllaw yma yn parhau'n addas neu beidio.

**<u>7. Argymhelliad</u>**

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor:

(a) Ystyried os dylid caniatau ymgeiswyr i fynychu cyfarfodydd i gyflwyno eu ceisiadau
(b) Ystyried y ffurflen ddiwygiedig
(c) Ystyried unrhyw newidiadau eraill y dylid eu gwneud i'r drefn
(ch) Ystyried os yw'r canllaw ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion yn parhau'n addas

**ATODIAD 1**

**Goddefebau – Ystadegau**

**Mai 2008- Mai 2012**

| | |
|---|---|
| Ceisiadau wrth gynghorwyr sir | 20 |
| Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol | 16 |
| Gwrthodwyd | 4 |

| | |
|---|---|
| Ceisiadau wrth gynghorwyr cymuned/tref | 8 |
| Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol | 3 |
| Gwrthodwyd | 5 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr holl geisiadau a dderbyniwyd | 28 |
| Caniatawyd /caniatawyd yn rhannol | 19 |
| Gwrthodwyd | 9 |

**Mai 2012- Mawrth 2014**

| | |
|---|---|
| Ceisiadau wrth gynghorwyr sir | 2 |
| Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol | 2 |
| Gwrthodwyd | 0 |

| | |
|---|---|
| Ceisiadau wrth gynghorwyr cymuned/tref | 2 |
| Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol | 2 |
| Gwrthodwyd | 0 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr holl geisiadau a dderbyniwyd | 4 |
| Caniatawyd/caniatawyd yn rhannol | 4 |
| Gwrthodwyd | 0 |

**Ceisiadau yn ymwneud ag ad-drefnu addysg gynradd**

**2008-12**

| | |
|---|---|
| Nifer y ceisiadau | 17 (aelodau Cyngor Gwynedd) |
| Caniatau | 15 |
| Gwrthod | 2 |

**2012-14**

| | |
|---|---|
| Nifer y ceisiadau | 1 (aelod o Gyngor Gwynedd) |
| Caniatau | 1 |
| Gwrthod | 0 |

# Cais am Ollyngiad

**ATODIAD 2**

Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am ollyngiad, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych ***'fuddiant sy'n rhagfarnu'*** o dan y Cod Ymddygiad. Mae gan y Pwyllgor Safonau yr hawl i ganiatáu cais os yw'r amgylchiadau'n dod o fewn un o'r paragraffau sydd ar yr Atodiad i'r ffurflen hon.

**1. Enw** ______________________________ **Cyngor** ______________________

**2. Beth yw'r eitem dan sylw?**

______________________________________________

**3. Beth yw eich buddiant (h.y. eich cysylltiad gyda'r mater)?**

______________________________________________

______________________________________________

**4. Pam y credwch y dylech gael cymryd rhan yn y drafodaeth?**

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

**5. Pa baragraff(au) sy'n berthnasol yn eich barn chi? (gweler atodiad)** ______________________

**6. Ydych chi'n gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?**

______________________________________________

**7. Ydych chi'n gofyn am ollyngiad ar gyfer cyfarfod penodol (os felly nodwch pa un), neu un cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?**

______________________________________________

**Arwyddwyd** ______________________________ **Dyddiad** ______________________

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Swyddog Priodoldeb:*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**www.gwynedd.gov.uk**

## Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau

**“2. Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf -**

**(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;**

**(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;**

**(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;**

**(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;**

**(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;**

**(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;**

**(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;**

**(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu**

**(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.”**

***(Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001)***

*I’w dychwelyd i’r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â’r Swyddog Priodoldeb:*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

**www.gwynedd.gov.uk**

# Cais i’r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

**ATODIAD 3**

**Nodwch fod RHAID i chi gwblhau pob rhan o’r ffurflen hon.**

DRAFT

## 1. MANYLION PERSONOL

| |
|---|
| Eich enw |
| Enw eich Cyngor |
| Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt |

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

| |
|---|
| Beth yw’r eitem dan sylw? |
| Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi? |

## 3. MANYLION EICH CAIS

| |
|---|
| Ydych chi’n gofyn am ollyngiad i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig? |

| |
|---|
| Ydych chi’n gofyn am ollyngiad ar gyfer cyfarfod penodol (os felly nodwch pa un), neu un cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi? |

*I’w dychwelyd i’r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â’r Swyddog Priodoldeb:*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**www.gwynedd.gov.uk**

**Mae’r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae’r manylion llawn i’w gweld yn y nodiadau i’r ffurflen hon). Nodwch pa un o’r amylchiad(au) hynny sy’n berthnasol i’ch cais drwy dicio’r blwch/blychau perthnasol:**

| | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy’n ystyried y mater | ☐ |
| • byddai’r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio | ☐ |
| • ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd | ☐ |
| • mae’r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd | ☐ |
| • mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol | ☐ |
| • mae’r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol | ☐ |
| • mae’r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☐ |

Nodwch isod pam y credwch y dylai’r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais.

*(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)*

**Arwyddwyd**____________________________________ **Dyddiad**______________________

***I’w dychwelyd i’r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.***

***Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â’r Swyddog Priodoldeb:***
***ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk***

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**www.gwynedd.gov.uk**



DRAFT

## Nodiadau ar gwblhau'r ffurflen

**1.** Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am oddefeb, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Gellir cael gwybodaeth bellach am fuddiannau yn y Cod Ymddygiad ei hun, Canllawiau'r Ombwdsmon ac yn llyfryn 'Buddiannau' Cyngor Gwynedd.

**2. Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**
Mae gan y Pwyllgor Safonau yr hawl i ganiatáu cais os yw'n dod o fewn un o'r amgylchiadau a restrir yn *Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001*, sef:

" (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu."

***I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.***

***Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Swyddog Priodoldeb:***
***ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk***



DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **7, Ebrill, 2014** |
| **TEITL** | **HUNAN ASESIAD** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Yn ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn mae'r Pwyllgor wedi nodi y bydd yn cynnal hunan asesiad yn ei gyfarfod yn Ebrill.

2. Pwrpas hunan asesiad ydi rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor ystyried sut mae'n cyflawni ei ddyletswyddau yn erbyn y swyddogaethau sydd wedi eu rhoi iddo dan y rheoliadau ac yng nghyfansoddiad y Cyngor.

3. Mae'r canlyniadau yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar raglen waith y dyfodol.

4. Cyflwynir yma ddrafft o ddogfen hunan asesu sydd wedi ei pharatoi gan y swyddogion. Mae wedi ei llunio fel bod y Pwyllgor yn cael cyfle i asesu ei waith a'i effeithiolrwydd yn erbyn y gofynion statudol a chyfansoddiadol.

5. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n gredu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

   <u>Categori 1</u> – Tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cyflawni'r gofynion yn llawn
   <u>Categori 2</u> – Tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cwrdd a'r gofynion sylfaenol ond bod modd gwneud rhagor i gwrdd yn llawn
   <u>Categori 3</u> – Dim tystiolaeth bod y Pwyllgor yn cyflawni'r gofynion

6. Mae angen nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r categori mae'r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae'r golofn "Tystiolaeth" yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae'n bosib y bydd aelodau'r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati

7. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi'r dystiolaeth bydd yn bosib i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn a pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae'r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach. Rhain ydi'r materion fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

8. ARGYMHELLIAD

   Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddrafft a chynnal hunan asesiad o'i waith.

## HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR SAFONAU 7/4/14

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3) | TYSTIOLAETH | CAMAU PELLACH |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | | Cyhoeddir adroddiad blynyddol yn manylu ar waith y Pwyllgor Safonau<br><br>Cyhoeddir rhaglen waith flynyddol i'r Pwyllgor<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol<br><br>Mae'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill<br><br>Rhai o'r aelodau cyfetholedig wedi mynychu pwyllgorau / cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn fel sylwebyddion | 1. Aelodau'r pwyllgor i fynychu pwyllgorau'r Cyngor fel sylwebyddion ar raglen dreigl reolaidd<br><br>2. Cynnal cyfarfodydd achlysurol gyda budd-ddeiliaid sydd a diddordeb mewn safonau ymddygiad e.e. Cadeiryddion pwyllgorau perthnasol, prif swyddogion y Cyngor |
| Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Côd Ymddygiad | | Mabwysiadwyd trefn ddatrys leol ar gyfer cwynion nad ydynt yn destun ymchwiliad Ombwdsmon<br><br>Mabwysiadwyd Protocol Cyfryngau Cymdeithasol<br><br>Adolygwyd y Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog | Ystyried llunio canllawiau syml i aelodau ar sut i ymdrin hefo cyswllt hefo'r Cyngor yn eu rôl fel unigolion preifat (e.e. ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio/perchennog cwmni sy'n cytundebu hefo'r Cyngor) |

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3) | TYSTIOLAETH | CAMAU PELLACH |
|---|---|---|---|
| Cynghori'r Cyngor ynglŷn a mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | | Rhoddwyd cyngor ar fabwysiadu'r Cod Ymddygiad yn 2008 | |
| | | Gwnaed sylwadau i'r Gweinidog perthnasol ar adolygiad o'r Côd Ymddygiad | |
| Monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad | | Derbynnir adroddiadau rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau | Edrych ar Lyfr Achosion yr Ombwdsmon i weld a oes gwersi i'w dysgu o gynghorau eraill |
| | | Derbynnir adroddiadau blynyddol yr Ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru | |
| | | Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a'r datganiadau a wneir | |
| | | Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch | |
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Côd Ymddygiad | | Derbynnir adroddiadau blynyddol ar yr hyfforddiant a drefnwyd yn ystod y flwyddyn | 1. Edrych ar ffyrdd o asesu ansawdd ac effaith yr hyfforddiant trwy ddadansoddi ffurflenni adborth<br><br>2. Parhau i gynnig sesiynau diweddaru i aelodau yn flynyddol<br><br>3. Parhau i gynnig sesiynau hyfforddi yn achlysurol i aelodau'r Pwyllgor ar gychwyn eu cyfarfodydd, yn unol â rhaglen hyfforddi |
| | | Cynhaliwyd hyfforddiant i aelodau'r cyngor sir ym Mai 2012 a Gorffennaf 2013 | |
| | | Mynychodd 5 aelod o'r Pwyllgor y Gynhadledd Safonau a gynhaliwyd yn Ebrill 2013 | |
| | | Cyflwynir sesiynau hyfforddi achlysurol i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod ffurfiol (roedd y ddiweddaraf yn Ionawr 2014) | |

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3) | TYSTIOLAETH | CAMAU PELLACH |
|---|---|---|---|
| Rhoi goddefebau i aelodau | | Mabwysiadwyd "polisi" ar ganiatáu goddefebau<br>Mabwysiadwyd trefn ar gyfer ystyried ceisiadau am oddefebau | Adolygu'r drefn ar gyfer goddefebau |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | | Mabwysiadwyd trefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau<br>Cynhaliwyd un gwrandawiad ers 2012 | Adolygu'r drefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau |
| Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad | | Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath | |
| Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned | | Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i glercod cynghorau cymuned yn yr hydref 2013<br>Anfonwyd holiadur yn gwneud archwiliad o gofrestrau buddiant cynghorau cymuned<br>Anfonwyd holiadur yn gwneud archwiliad o gofrestrau rhoddion a lletygarwch cynghorau cymuned<br>Anfonir adroddiad blynyddol y Pwyllgor at yr holl gynghorau cymuned | Cyfarfod cynrychiolwyr o'r cynghorau cymuned i drafod sut y gellir cynnal safonau uchel o ymddygiad |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **7 Ebrill, 2014** |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Ers dwy flynedd bellach mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu rhaglen waith am y flwyddyn i ddod.

2. Cyflwynir yma raglen waith ddrafft am 2014/15 a gofynnir am gymeradwyaeth y pwyllgor iddi.  O'i chymeradwyo bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2014/15

| DYDDIAD | PWNC | PWRPAS. |
|---|---|---|
| 7, Ebrill, 2014 | Cyfarfod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. | Trafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin i'r ddau bwyllgor. |
| | Trefn ceisiadau am oddefebau. | Adolygu'r drefn o ymdrin â cheisiadau am oddefebau; derbyn adroddiad adborth o'r ceisiadau a wnaed hyd yma. |
| | Hunan asesiad o waith y pwyllgor. | Cynnal hunan asesiad o waith y pwyllgor hyd yma, a chynnig unrhyw newidiadau. |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad adborth a chyflwyno unrhyw sylwadau. |
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor. | Cymeradwyo'r rhaglen waith am 2014/15. |
| 30, Mehefin,, 2014 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau | Cymeradwyo adroddiad blynyddol ar waith y pwyllgor am y flwyddyn a fu. |
| | Trefn cynnal gwrandawiadau | Adolygu’r drefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor |
| | Llyfr achosion yr Ombwdsmon | Ystyried cynnwys y Llyfr Achosion (Cod Ymddygiad) a nodi unrhyw wersi i’w dysgu. |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad am honiadau a wnaed ers y cyfarfod diwethaf. |
| | Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | Derbyn, er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Fforwm. |

| **DYDDIAD** | **PWNC** | **PWRPAS.** |
|---|---|---|
| 29, Medi, 2014 | Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon. | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| | Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru. | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad adborth a chyflwyno unrhyw sylwadau. |
| | Cyfarfod cynrychiolwyr cynghorau cymuned | Cynnal trafodaeth hefo cynrychiolwyr o UnLlais Cymru a/neu Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ar waith y pwyllgor a materion safonau. |
| | Hyfforddiant. | Derbyn adroddiad ar hyfforddiant sydd wedi ei gyflwyno ar y Côd Ymddygiad ac ar drefniadau hyfforddi am y flwyddyn i ddod. Ystyried hyfforddiant ar gyfer aelodau'r pwyllgor. |
| 26, Ionawr, 2015. | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch. | Derbyn adroddiad blynyddol ar y gofrestr Rhoddion a Lletygarwch (cyngor sir a chynghorau cymuned). |
| | Cofrestr buddiannau aelodau etholedig. | Derbyn adroddiad blynyddol ar y gofrestr buddiannau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn (cyngor sir a chynghorau cymuned). |
| | Trefn datrys anghydfod lleol | Derbyn adroddiad ar weithrediad y drefn yn ystod y flwyddyn. (Mae'r drefn yn berthnasol i gwynion dan Safon Gwynedd a chwynion dan y Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog a'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol) |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad adborth a chyflwyno unrhyw sylwadau. |
| | Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru. | Derbyn, er gwybodaeth gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Fforwm. |
| | Ethol aelodau newydd | Derbyn adroddiad ar y drefn o ethol aelodau newydd i'r pwyllgor. |
| **DYDDIAD** | **PWNC** | **PWRPAS.** |

| | | |
|---|---|---|
| 20, Ebrill, 2015 | Cyfarfod Prif Weithredwr a chynrychiolwyr o grŵp rheoli'r Cyngor | Trafod gwaith y pwyllgor a materion safonau |
| | Protocol Cyfryngau Cymdeithasol | Derbyn adroddiad ar weithrediad y protocol ynghyd a gwe-ddarlledu ac ymuno o bell mewn pwyllgorau yng nghyd-destun safonau ac ymddygiad |
| | Honiadau yn erbyn aelodau. | Derbyn adroddiad adborth a chyflwyno unrhyw sylwadau. |
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor. | Cymeradwyo'r rhaglen waith am 2015/16. |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **7 Ebrill 2014** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 201300346

**Dyddiad derbyn:** 23/04/13

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ffilmio a recordio sgwrs yn gyfrinachol a'i roi ar ei dudalen Facebook.

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau

### 2.2 Achos 201301307

**Dyddiad derbyn:** 06/06/13

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol tuag at yr achwynydd

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau.

### 2.3 Achos 4414/201301916

**Dyddiad derbyn:** (wedi codi yn ystod ymchwiliad i 2.1 uchod)

**<u>Cwyn</u>**

Ombwdsmon wedi penderfynu ymchwilio ar sail materion a ddaeth ar eu traws wrth ymchwilio i gŵyn arall yn erbyn y cynghorydd (para 2.1 uchod):

- Dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd neu ar yr awdurdod
- Gwrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd a cham ddefnydd o'i rôl fel cynghorydd
- Mynychu cyfarfod yn groes i gyngor y Swyddog Monitro lle gallai bod sefyllfa o wrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd
- Ymddygiad tuag at aelod o'r cyhoedd yn groes i'r Cod Ymddygiad

**<u>Penderfyniad</u>**

Ymchwiliad yn parhau.

### 2.4 Achos 201301629

**Dyddiad derbyn:** 17/06/13

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant mewn eitem oedd gerbron cyfarfod o'r cyngor.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ymchwiliad yn parhau.

## 3. Achosion fu gerbron y Pwyllgor Safonau

### 3.1 Cyng. A.M. Jones, Cyngor Gwynedd

Mae Panel Dyfarnu Cymru wedi cyhoeddi'r penderfyniad llawn ar apêl y Cyng. Jones (gweler **Atodiad**). Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar gyfarfod ar 27/01/14 ysgrifennwyd at y Cyng. Jones yn ei hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor. Yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol, cyhoeddwyd rhybudd mewn papurau newydd, rhoddwyd adroddiad y Pwyllgor ar wefan y Cyngor a rhoddwyd copi ohoni yn Siop Gwynedd, Caernarfon hefyd.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

(CT13 v01.09.10)

# PANEL DYFARNU CYMRU
# ADJUDICATION PANEL FOR WALES

## ADRODDIAD AR Y PENDERFYNIAD

**CYFEIRNOD Y TRIBIWNLYS:** APW/006/2012-013/A

**APÊL YN ERBYN PENDERFYNIAD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN CYSYLLTIAD AG ACHOS HONEDIG O DORRI'R COD YMDDYGIAD**

**APELYDD:** Y Cynghorydd Aeron M Jones

**AWDURDOD PERTHNASOL:** Cyngor Gwynedd

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae Tribiwnlys Apêl a gynullwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru wedi ystyried apêl gan y Cynghorydd Jones yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd, dyddiedig 26 Medi 2012, ei fod wedi torri cod ymddygiad Cyngor Gwynedd ac y dylid ei wahardd am dri mis.

1.2 Yn unol â dymuniadau'r Cynghorydd Jones, penderfynodd y Tribiwnlys Apêl ar yr apêl drwy gynrychioliadau ysgrifenedig mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 17 Ionawr 2014 yng Nghanolfan Halliwell, Coleg y Drindod, Caerfyrddin.

## 2. DOGFENNAU RHAGARWEINIOL

2.1. Apêl yn Erbyn Penderfyniad y Pwyllgor Safonau

2.1.1. Mewn llythyrau dyddiedig 20 Hydref 2012 a 18 Hydref 2012, a gafwyd drwy e-bost ar 9 Tachwedd 2013, derbyniodd Panel Dyfarnu Cymru apêl gan y Cynghorydd Jones yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2012, ei fod wedi torri cod ymddygiad Cyngor Gwynedd ac y dylid ei wahardd am dri mis.

2.1.2 Gwnaeth y Pwyllgor Safonau ei benderfyniad ar ôl ystyried adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") o dan delerau adrannau 69(4)(c) a 71(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a 'Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001'.

2.1.3 Canfu'r Pwyllgor Safonau fod y Cynghorydd Jones wedi torri cod ymddygiad Cyngor Gwynedd drwy gyhoeddi honiadau di-sail ar ei flog bod yr achwynydd yn bwriadu ymddeol yn fuan, fel pennaeth ysgol, a sefyll mewn etholiad i'r Cyngor mewn sedd a ddelid gan gynghorydd arall.

2.1.4 Ystyriodd Tribiwnlys yr Achos y ddogfennaeth ganlynol:

a. Adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") dyddiedig 25 Ebrill 2012 ac Atodiadau'r Adroddiad hwnnw;
b. Hysbysiad o Benderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd dyddiedig 26 Medi 2012;
c. Llythyrau dyddiedig 18 ac 20 Hydref 2012 gan y Cynghorydd Jones yn rhoi gwybod am ei apêl yn erbyn Penderfyniad y Pwyllgor Safonau;
d. Llythyr dyddiedig 6 Ionawr 2014 i Banel Dyfarnu Cymru gan yr Ombwdsmon mewn ymateb i apêl y Cynghorydd Jones;
e. Llythyr Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd dyddiedig 6 Rhagfyr 2013 i Banel Dyfarnu Cymru mewn ymateb i apêl y Cynghorydd Jones.

**2.2 Apêl Ysgrifenedig yr Apelydd yn erbyn Penderfyniad y Pwyllgor Safonau**

2.2.1 Drwy lythyrau dyddiedig 18 ac 20 Hydref 2012, apelodd y Cynghorydd Jones yn erbyn Penderfyniad Pwyllgor Safonau Gwynedd a wnaed ar 26 Medi 2012. Roedd yr Ombwdsmon wedi cael cwyn ar 17 Gorffennaf 2011, fod y Cynghorydd Jones wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad i Aelodau Cyngor Gwynedd am ei fod wedi cyhoeddi ar ei flog, ar 6 Gorffennaf 2011, honiadau di-sail bod yr achwynydd, a oedd yn bennaeth ysgol, yn bwriadu ymddeol yn fuan a sefyll mewn etholiad i'r Cyngor mewn sedd a ddelid gan gynghorydd arall. Roedd yr achwynydd wedi datgan nad oedd yr honiadau yn wir ac roedd wedi cwyno bod y Cynghorydd wedi mynd yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r cod ymddygiad (dwyn anfri ar swydd cynghorydd neu'r awdurdod) drwy wneud honiadau di-sail yn erbyn person a oedd ar gyflogres y Cyngor a pharagraff 7(a) (defnyddio neu geisio defnyddio swydd cynghorydd i roi person arall o dan anfantais) drwy wneud sylwadau di-sail a allai fod wedi rhoi'r achwynydd o dan anfantais sylweddol yn broffesiynol.

2.3 Nid ymddangosodd y Cynghorydd Jones yn y Pwyllgor Safonau ac nis cynrychiolwyd. Roedd y Swyddog Monitro wedi esbonio i'r Pwyllgor Safonau bod y Cynghorydd Jones wedi ffonio ei hysgrifenyddes y prynhawn blaenorol i ddweud na fyddai'n mynychu'r gwrandawiad gan y byddai'n mynd i gyfarfod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

2.4 Roedd y Cynghorydd Jones wedi'i hysbysu o wrandawiad y Pwyllgor Safonau drwy lythyr dyddiedig 19 Gorffennaf 2012, mewn da bryd. Nid oedd y Pwyllgor Safonau yn fodlon bod ganddo reswm digonol dros beidio â mynd i'r gwrandawiad na chyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig. Aeth y Pwyllgor Safonau ymlaen i wrando'r gŵyn yn absenoldeb y Cynghorydd Jones.

2.5 Mae'n werth nodi bod yr Ombwdsmon hefyd wedi wynebu anawsterau difrifol yn ystod ei ymchwiliad wrth geisio cael ymatebion neu ymatebion amserol gan y Cynghorydd Jones. Hyd yn oed os ystyrir y ffaith bod y Cynghorydd Jones, yn anffodus, wedi dioddef llifogydd yn ei gartref, yr honnodd iddynt effeithio ar ei

allu i edrych dros ei bapurau, nodweddir ei barodrwydd i ymateb neu ymateb mewn modd amserol i geisiadau a gohebiaeth a anfonwyd ato mewn perthynas â'r gŵyn yn ei erbyn a'r ymchwiliad iddi, gan yr hyn na ellir ond ei ystyried yn ystyriaeth annigonol neu'n ddiystyrwch bwriadol o'r broses.

2.6 Mae'n amlwg i'r Tribiwnlys Apêl mai'r ffordd orau y gellir disgrifio agwedd y Cynghorydd Jones tuag at yr Ombwdsmon, y Pwyllgor Safonau a'r Panel Dyfarnu yw difater a dirmygus ac yn sarhad ar y system neu'r broses a roddwyd ar waith i ymdrin â chwynion o'r math hwn yn erbyn Cynghorwyr.

2.7 Nododd y Pwyllgor Safonau fod y Cynghorydd Jones wedi methu ag ateb unrhyw un o'r cwestiynau a ofynnwyd iddo yn ystod yr ymchwiliad, ei fod wedi methu â rhoi unrhyw esboniad am ei ymddygiad a'i fod wedi methu ag ymddangos gerbron y Pwyllgor na chyflwyno unrhyw gynrychioliadau. Nododd y Pwyllgor ei fod wedi colli pum cyfle i esbonio ei sefyllfa i'r Ombwdsmon.

2.8 Roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn nad oedd y Cynghorydd Jones wedi rhoi fawr ddim sylw i'r gyfundrefn safonau, gofynion y cod ymddygiad na rôl y Pwyllgor a Phanel Dyfarnu Cymru.

2.9 Mae'r Panel Dyfarnu wedi wynebu anawsterau tebyg gyda'r Cynghorydd Jones i'r rhai a wynebwyd gan yr Ombwdsmon a'r Pwyllgor Safonau.

2.10 Ystyriodd y Pwyllgor Safonau y gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Jones ac, am y rhesymau a nodwyd yn glir yn ei Hysbysiad o Benderfyniad, dyddiedig 26 Medi 2012, penderfynodd fod y Cynghorydd Jones wedi mynd yn groes i baragraffau 7(a), 6(1)(a), 4(b), a 6(2) o'r cod ymddygiad. Gwaharddodd y Pwyllgor y Cynghorydd Jones am dri mis, sef y cyfnod hiraf y gallai ei wahardd. Penderfynodd y Pwyllgor hefyd y dylai ddileu'r dudalen berthnasol ar ei flog, ymddiheuro i'r achwynydd ac ymgyfarwyddo'n llawn â'r cod ymddygiad.

2.11 Gellir crynhoi a datgan sail apêl y Cynghorydd Jones (a nodir yn ei lythyrau dyddiedig 18 ac 20 Hydref 2012) yn syml fel a ganlyn:

a. nid ystyriodd y Pwyllgor Benderfyniad yr Uchel Lys yn achos Calver wrth ystyried y sylwadau a wnaed yn ei flog ynghylch yr achwynydd.
b. methodd y Pwyllgor â dehongli'r ffeithiau yn gywir a bod ganddo gymhelliant gwleidyddol.
c. sylwadau gwleidyddol, nid personol, oedd ar y blog.

2.12 Mae'r Tribiwnlys Achos wedi ystyried yn ofalus yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd iddo a'r cynrychioliadau a gafwyd.

## 3. PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS APÊL

3.1 Daeth y Tribiwnlys Apêl i'r casgliad, drwy benderfyniad unfrydol, y dylid diswyddo'r Cynghorydd Jones. Roedd y Tribiwnlys Apêl yn fodlon nad oedd sail i'r apêl a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Jones. Roedd y sylwadau ar y blog yn anghywir a di-sail ac roeddent yn sylwadau personol yn erbyn yr achwynydd yn hytrach na rhai gwleidyddol. Roedd y sylwadau yn ymwneud â chyflogaeth yr

achwynydd a gallent fod wedi bod yn niweidiol iddo o ran ei berthynas â'i gyflogwr a'r rhai yn yr ysgol lle roedd yn gweithio.

3.2 Daeth y Tribiwnlys Apêl i'r casgliad, drwy benderfyniad unfrydol, y dylid cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Safonau. Dylid gwahardd y Cynghorydd Jones am dri mis rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd. At hynny, yn unol â chais y Pwyllgor Safonau, dylai ymddiheuro i'r achwynydd a chael hyfforddiant ar y cod ymddygiad. Mae'r Tribiwnlys Apêl hefyd yn argymell y dylai gael hyfforddiant ar Ganllaw CLILC ar Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013.

3.3 Hysbysir Cyngor Gwynedd a'i Bwyllgor Safonau yn unol â hynny.

*Paratowyd gan Mr Gwyn Davies a'i lofnodi yn ei absenoldeb gan Gofrestrydd Panel Dyfarnu Cymru*

Llofnodwyd................................ Dyddiad 18 Chwefror 2014

Mr Gwyn Davies
Cadeirydd y Tribiwnlys Achos

Ms Juliet Morris
Aelod o'r Panel

Miss Susan Hurds
Aelod o'r Panel